**BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO** |
| **PWNC:** | **PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 14 EBRILL 2022 DYDD IAU, 14 EBRILL 2022** |
| **ADRODDIAD GAN:** | |

---

PRESENNOL: T. EDWARDS (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: S. Healy (Is-gadeirydd)
D. Davies
J. Hill
J. Holt
J. Millard
K. Rowson
B. Summers
S. Thomas
M. Veale

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar gyfer y Cynghorydd D. Hancock. | |
| **No. 3** | **DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Datganodd y Cynghorydd B. Summers a J. Hill fuddiant yn yr eitemau dilynol:<br><br>Eitem Rhif 5 Datganiad Cyfrifon 2016/17 i 2020/21 (Silent Valley Waste Services Cyfyngedig)<br><br>Eitem Rhif 6 Archwilio Wales – Archwilio Adroddiadau Cyfrifon 2016/17 i 2020/21 | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT AC ARCHWILIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2022.<br><br>PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DATGANIAD CYFRIFON 2016/2017 I 2020/2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau fod eitemau rhif 5 a 6 yn rhoi sylw i'r un mater, h.y. Datganiad Cyfrifon Blaenau Gwent a barn Archwilio Cymru ar y Cyfrifon, ac awgrymodd ystyried yr eitemau gyda'i gilydd.<br><br>Cyflwynodd yr Uwch Bartner Busnes Cyllid yr adroddiad sy'n ailgyflwyno'r Datganiad Cyfrifon rhwng 2016/2017 a 2020/2021.<br><br>Cadarnhaodd y cafodd y Datganiad Cyfrifon eu cyflwyno'n flaenorol i'r Pwyllgor a bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi cyhoeddi barn ar y Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, ym mhob achos ni fedrai dystio fod yr archwiliad o'r cyfrifon yn gyflawn oherwydd gwaith sy'n mynd rhagddo yng nghyswllt pryderon a godwyd mewn gohebiaeth yng nghyswllt Silent Valley Waste Services Cyf.<br><br>Fodd bynnag, ar ôl cyhoeddi ei adroddiad yng nghyswllt y materion a godwyd *(Diffygion yn nhrefniadau llywodraethiant a goruchwylio Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yng nghyswllt cwmni sy'n eiddo'r Cyngor – a ystyriwyd mewn Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor ar 7 Chwefror 2022)* mae'r Archwilydd Cyffredinol yn awr wedi dweud y gallai gyhoeddi barn newydd ar gyfer pob Datganiad Cyfrifon o 2016/2017 ac ardystio bod yr archwiliad ar gyfer pob blwyddyn yn gyflawn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd y fframwaith statudol ar gyfer cymeradwyo cyfrifon Awdurdodau Lleol yn ei gwneud yn ofynnol, cyn i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi barn wedi ei diweddaru, fod yn rhaid i Gyfrifon pob blwyddyn gael eu hail-ardystio gan y Prif Swyddog Adnoddau a'u hail-gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio.<br><br>Felly cadarnhaodd y Swyddog y cafodd y Datganiad Cyfrifon a gyflwynwyd i'w gymeradwyo ei newid i gynnwys y farn ddiwygiedig a ddarparwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yn ychwanegol, cafodd y datgeliad perthnasol yn adran 'Adroddiad Naratif' pob set o Gyfrifon (2016/2017 i 2019/2020) ei ddiweddaru i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol. Nid oedd angen unrhyw ddiwygiadau pellach.<br><br>Cadarnhaodd cynrychiolydd Archwilio Cymru fod yr adroddiadau, ar wahân i rai newidiadau naratif, yn cadarnhau y gall Archwilio Cymru bellach ardystio ac esbonio'r sefyllfa yn nhermau ei ganfyddiadau ac adrodd i Aelodau ac yn y blaen, yn union yr un fath a'u bod wedi cael eu hystyried gan Aelodau. Fodd bynnag, byddai angen llythyr cynrychiolaeth diwygiedig.<br><br>Dywedodd hefyd fod y Cyfrifon yn fformat 2021 gan fod y farn archwilio ddiwygiedig yn cael ei chyhoeddi ar y dyddiad hwn, ni fu unrhyw newid yn y cyd-destun a'r cynnwys.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol 2016/2017 i 2020/201 yn cael eu **hail-gymeradwyo** gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio dan awdurdod dirprwyedig y Cyngor (Opsiwn 1). | |
| **No. 6** | **ARCHWILIO CYMRU – ARCHWILIO ADRODDIADAU CYFRIFON 2016/2017 I 2020/2021**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo. | |
| **No. 7** | **YMATEB I YMHOLIAD ARCHWILIO CYMRU I'R RHAI SY'N GYFRIFOL AM LYWODRAETHIANT A RHEOLAETH**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Prif Swyddog Adnoddau. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad sy'n hysbysu Aelodau am ymateb rheolwyr i ymholiadau Archwilio Cymru (Atodiad A) ac i'r Pwyllgor ystyried ei ymateb ei hun i'r ymholiadau fel y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethiant.<br><br>Eglurodd y Swyddog bwyntiau a godwyd gan Aelod.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Pwyllgor yn cymeradwyo ymateb y rheolwyr i ymholiad Archwilio Cymru ac ystyriodd fod y drafft ymateb i'r Cyngor yn adlewyrchu eu barn yn gywir (Opsiwn 1).<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i Swyddogion ac Aelodau am eu cefnogaeth a'u gwaith yn ystod y flwyddyn, ac estynnodd ddymuniadau da i'r Aelodau ar gyfer yr etholiadau. | |